



Canllawiau ar gyfer budd-daliadau lles ar ôl anaf i'r ymennydd

Addaswyd a chyfieithwyd y daflen ffeithiau hon o'r llawlyfr Headway *A guide to welfare benefits after brain injury*. Mae'n rhoi gwybodaeth am fudd-daliadau lles, sut i wneud cais am fudd-daliadau, apeliadau yn erbyn penderfyniadau a sefydliadau defnyddiol.

Cyflwyniad

Gall anaf i'r ymennydd effeithio ar lawer o agweddau ar fywyd bob dydd. O ganlyniad i effeithiau anaf i'r ymennydd, efallai y byddwch yn ei chael hi'n anodd gweithio neu'n profi costau uwch oherwydd eich anabledd. Efallai y bydd yn rhaid i bartneriaid neu aelodau'r teulu weithio llai o oriau neu roi'r gorau i'w gwaith er mwyn cyflawni swyddogaethau gofalu. Gall sefyllfaoedd o'r fath effeithio ar eich sefyllfa ariannol, ac o bosib byddwch yn gymwys i hawlio budd-daliadau lles.

Ceir gwahanol fathau o fudd-daliadau, a gallech fod yn gymwys i gael mwy nag un math yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Cafodd y llawlyfr hwn ei ysgrifennu i'ch helpu chi i ddeall rhai o'r prif fudd-daliadau sy'n bodoli ar gyfer unigolion a chanddynt anabledd a'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn wrth ymgeisio amdanynt.

Mae'n bwysig cofio bod hawl i fudd-daliadau yn gymhleth ac yn cymryd llawer o ffactorau i ystyriaeth, felly cânt eu prosesu fesul unigolyn bob amser ac maent yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol eich hun. Mae diwygio lles yn golygu bod y budd-daliadau eu hunain yn newid yn rheolaidd. Felly, dylid ond fel canllaw cyffredinol ar gyfer budd-daliadau lles y dylid defnyddio'r llawlyfr hwn.

Mae budd-daliadau eraill ar gael nad oes cyfeiriad atynt yn y llawlyfr hwn. Felly mae'n bwysig ceisio cyngor arbenigol bob amser gan arbenigwr ar fudd-daliadau i sicrhau eich bod chi'n cael cymaint o gymorth ariannol ag y mae gennych hawl cyfreithiol iddo.

Tâl Salwch Statudol

Os ydych eisoes mewn gwaith ond na allwch weithio am fwy na thri diwrnod yn olynol am resymau iechyd, gall eich cyflogwr dalu Tâl Salwch Statudol (SSP) i chi. Telir hyn yn yr un modd â'ch cyflog arferol ac mae'n rhaid talu treth arno.

Cewch wneud cais am SSP os ydych yn gweithio'n amser llawn neu'n rhan-amser, yn weithiwr asiantaeth neu ar gontract cyfnod penodedig. Ni chewch wneud cais am SSP os ydych yn hunangyflogedig. Mae'n rhaid i chi hefyd fod yn ennill mwy na £112 yr wythnos i fod yn gymwys.

Os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu gweithio oherwydd anaf i'r ymennydd, dylech roi gwybod i'ch cyflogwr cyn gynted ag y bo modd. Gallech ddewis gwneud hyn yn



ysgrifenedig er mwyn rhoi cyfle yn y lle cyntaf i chi esbonio'n lled fanwl sut mae eich anaf yn effeithio ar eich gallu i weithio. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i chi roi tystiolaeth feddygol (megis tystysgrif feddygol gan eich meddyg) nes bod wythnos yn mynd heibio ar ôl i'ch salwch ddechrau. Gallwch hefyd lenwi ffurflen SC2, sydd ar gael o feddygfa eich meddyg neu o www.gov.uk.

Mae llawer o gyflogwyr yn cynnig cynlluniau tâl salwch mwy hael, felly dylech ddarllen eich contract cyflogaeth a pholisïau'r cwmni i gael gwybod a yw SSP yn iawn i chi.

Bydd eich cyflogwr wedyn yn penderfynu a ydych yn gymwys i dderbyn SSP. Os ydych yn llwyddiannus, cewch SSP am hyd at 28 wythnos tra byddwch yn methu gweithio. Os yw eich cyflogwr yn penderfynu nad ydych yn gymwys i dderbyn SSP, dylai anfon ffurflen SSP1 atoch yn esbonio'r rheswm dros ei benderfyniad. Bydd y ffurflen hon hefyd yn rhoi gwybodaeth am fudd-daliadau llesiant eraill y gallech fod yn gymwys i'w derbyn.

Ar y pwynt hwn, cewch wneud cais i ailystyried y penderfyniad os ydych o'r farn y dylech fod yn gymwys i dderbyn SSP. Gwneir hyn trwy gysylltu â Chanolfan Ymholiadau CthEM. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld yn yr adran Rhifau Defnyddiol.

Weithiau, gall pobl ei chael yn anodd sicrhau bod eu cyflogwyr yn deall effaith anaf i'r ymennydd oherwydd yn aml gall yr effeithiau fod yn 'gudd'. Mae gan Headway amrywiaeth o gyhoeddiadau ar effeithiau anaf i'r ymennydd a chyflogaeth a all eich helpu i addysgu cyflogwyr am anafiadau i'r ymennydd. Cewch bori trwy'r holl daflenni ffeithiau a chael gafael arnynt am ddim o wefan Headway yn www.headway.org.uk/information-library.

Nid yw taliadau SSP yn cael eu hatal os bydd rhaid i chi fynd i'r ysbyty yn ystod eich hawliad.

Tâl Salwch Statudol (SSP) – pwyntiau allweddol

- Cewch wneud cais am SSP os na allwch weithio am fwy na thri diwrnod yn olynol am resymau iechyd
- Caiff ei dalu gan eich cyflogwr
- Gellir ei dalu am hyd at 28 wythnos
- Os nad ydych yn gymwys i dderbyn SSP neu os nad ydych yn gweithio am fwy na 28 wythnos, cewch wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Cewch hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) os nad ydych yn gweithio am fwy na 28 wythnos oherwydd bod yr anaf i'ch ymennydd wedi effeithio ar eich gallu i weithio. Ceir ei hawlio ar unwaith os nad yw Tâl Salwch Statudol (SSP) yn daladwy neu os yw SSP yn



dod i ben cyn diwedd yr 28 wythnos.

Telir ESA gan y llywodraeth. Felly caiff penderfyniadau eu gwneud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Mae swm yr ESA y mae'r hawl gennych iddo yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Mae dau fath gwahanol: ESA ar sail cyfraniadau (c-ESA) ac ESA ar sail incwm (i-ESA). Cewch dderbyn y naill neu'r llall neu'r ddau, yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

ESA ar sail cyfraniadau (c-ESA)

Maen prawf cymhwysedd c-ESA yw bod yn rhaid i chi fod wedi talu digon o gyfraniadau yswiriant gwladol i gael eich ystyried ar ei gyfer. Nid yw'n dibynnu ar brawf modd, felly ni fydd eich incwm a'ch cynilion yn ffactor o ran faint y gallech fod yn gymwys i'w dderbyn. Fodd bynnag, gall taliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth flaenorol effeithio arno. Mae'r math hwn o ESA yn drethadwy.

ESA ar sail incwm (i-ESA)

Os nad ydych wedi talu digon o gyfraniadau yswiriant gwladol neu os yw incwm yr aelwyd yn isel, gallech fod yn gymwys i dderbyn i-ESA. Mae'n rhaid bod gennych gynilion o lai na £16,000 i fod yn gymwys. Os oes gennych bartner, bydd eu hamgylchiadau, eu hincwm a'u cynilion nhw hefyd yn cael eu hystyried. Mae'r math hwn o ESA yn dibynnu ar brawf modd. Felly rhoddir ystyriaeth i'ch incwm, eich cynilion a chyfalaf arall a bydd hyn yn pennu faint o fudd-dal a gewch. Nid yw'r math hwn o ESA yn drethadwy.

Yn lle'r i-ESA mewn rhai rhannau o Gymru, Lloegr a'r Alban, gellir talu'r budd-dal Credyd Cynhwysol.

Gwneud cais am ESA

Gallwch wneud cais am ESA dros y ffôn gyda chymorth cynghorydd. Mae rhifau cyswllt ar gyfer cynghorwyr ESA ar gael yn yr adran Rhifau Defnyddiol. Fel arall, gallwch ddefnyddio'r ffurflen ESA1 o www.gov.uk a'i llenwi eich hun.

Ar ôl i chi wneud eich cais cychwynnol, bydd y DWP yn anfon atoch ffurflen ESA50. Ar y ffurflen hon, bydd cyfle i chi roi rhagor o wybodaeth am eich iechyd, eich amgylchiadau a'ch gallu i weithio. Mae'n bwysig eich bod yn ceisio cynnwys cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am sut mae'ch anaf i'r ymennydd yn effeithio ar eich gallu i weithio. Gall hyn gynnwys materion corfforol, megis blinder neu gur pen, neu faterion gwybyddol, megis anhawster i ganolbwyntio neu gynnal eich sylw.

Pan fydd y ffurflen hon wedi'i phrosesu, efallai y cewch eich gwahodd i Asesiad Gallu i Weithio wyneb yn wyneb.



Mae rhagor o wybodaeth am lenwi'r ffurflen ESA50 a'r Asesiad Gallu i Weithio yn nhaflen ffeithiau Headway *The Work Capability Assessment and completing the ESA50 form.*

Aros am asesiad

Gall ceisiadau am ESA gymryd amser hir i'w prosesu, weithiau mwy na 13 wythnos. Efallai fod modd ichi dderbyn cyfradd sefydlog (a elwir y gyfradd asesu) o gymorth ariannol yn ystod y cyfnod aros.

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, cewch hefyd ôl-ddyddio'ch taliadau am hyd at dri mis cyn dyddiad y cais os nad oeddech yn gallu gweithio yn ystod y cyfnod hwn. Bydd angen i chi ddarparu tystysgrif feddygol i brofi hyn. Dylid gwneud cais am daliadau ôl-ddyddiedig wrth wneud y cais.

Yr Asesiad Gallu i Weithio

Os yw'r DWP yn penderfynu y gallech fod yn gymwys i dderbyn ESA ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn y cais am ESA, bydd yn rhaid i chi fel arfer wneud Asesiad Gallu i Weithio. Prawf meddygol yw hwn sy'n asesu eich gallu i weithio. Fel arfer mae hyn yn cynnwys cyfweliad wyneb yn wyneb a holiadur.

Mae'r asesiad yn seiliedig ar system sgôr pwyntiau. Bydd nifer y pwyntiau a gewch yn yr asesiad yn penderfynu a fyddwch yn cael derbyn ESA, ac os felly, i ba grŵp y byddwch yn perthyn o blith y canlynol:

- Grŵp gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith
Cewch eich rhoi yn y grŵp hwn os yw'r DWP yn cydnabod na allwch weithio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cewch eich cefnogi i wella'ch cyfleoedd o ddychwelyd i'r gwaith yn y dyfodol. Gall hyn fod yn addas os ydych yn ei chael yn anodd gweithio ar hyn o bryd ond yr hoffech ddychwelyd i'r gwaith yn y pen draw, wrth i effeithiau'r anaf i'r ymennydd wella gydag amser. Bydd y budd-dal yn cael ei dalu am hyd at un flwyddyn os ydych yn derbyn c-ESA, ond gall barhau am y cyfnod yr ydych yn gymwys os ydych yn derbyn i-ESA.

Os ydych wedi eich rhoi yn y grŵp gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith, efallai y bydd yn rhaid i chi gytuno i ddisgwyliadau penodol er mwyn derbyn ESA, megis mynd i gyfweliadau gwaith. Os nad ydych yn bodloni'r disgwyliadau hyn gall arwain at leihau eich budd-dal. Gelwir hyn yn gosb.

- Grŵp cymorth
Cewch eich rhoi yn y grŵp hwn os yw'r DWP yn cydnabod bod eich anaf i'r ymennydd yn cyfyngu'n ddifrifol ar eich gallu i weithio yn awr ac yn y dyfodol. Caiff ei dalu cyhyd ag y byddwch yn gymwys, pa un a ydych yn derbyn c-ESA neu i-ESA ai peidio.



Fel rheol ni chewch weithio pan fyddwch yn derbyn yr ESA. Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau pan gewch chi weithio; gelwir hyn yn 'waith a ganiateir' ac mae cyfyngiadau llym i hyn. Bydd eich gallu i wneud gwaith a ganiateir wrth dderbyn ESA yn dibynnu ar eich amgylchiadau, megis natur y gwaith yr ydych yn ei wneud. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r DWP os ydych yn ystyried gwneud gwaith a ganiateir.

Herio penderfyniad ynglŷn ag ESA

Os yw'r DWP yn penderfynu nad ydych yn gymwys i dderbyn ESA, neu os ydych o'r farn eich bod wedi'ch rhoi yn y grŵp anghywir, efallai y byddwch yn dymuno gwneud cais am ailystyriaeth orfodol. Bydd manylion am sut i wneud hyn wedi'u cynnwys yn eich llythyr penderfyniad. Caiff rhywun eich helpu gyda'r broses hon, megis aelod o'r teulu neu eiriolwr. Dylid cyflwyno ailystyriaethau gorfodol o fewn mis i dderbyn y llythyr penderfyniad.

Os yw eich ailystyriaeth yn dal i nodi nad ydych yn gymwys i dderbyn ESA, cewch apelio yn erbyn y penderfyniad hwn mewn tribiwnlys annibynnol. Os ydych yn penderfynu apelio, mae gennych fis o ddyddiad llythyr yr ailystyriaeth orfodol gan DWP i gyflwyno apêl. Gwneir hyn trwy ffurflen SSCS1; cewch afael ar y ffurflen hon o www.gov.uk neu gallwch ofyn am gopi gan eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol.

Mae'r broses apelio yn erbyn penderfyniad ESA yn wahanol yng ngogledd Iwerddon. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.nidirect.gov.uk.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) – pwyntiau allweddol

- Cewch wneud cais am ESA os na allwch weithio ar ôl 28 wythnos.
- Mae dau fath o ESA: ESA ar sail cyfraniadau ac ESA ar sail incwm. Gallwch dderbyn y naill neu'r llall neu'r ddau, yn dibynnu ar eich amgylchiadau.
- Bydd angen i chi wneud Asesiad Gallu i Weithio yn rhan o'r proses gwneud cais.
- Os cewch dderbyn ESA, cewch eich rhoi mewn un o ddau grŵp: y grŵp gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith neu'r grŵp cymorth.
- Efallai y gallwch chi wneud rhywfaint o waith pan fyddwch yn derbyn yr ESA: gelwir hyn yn 'waith a ganiateir'.

Credyd Cynhwysol

Budd-dal newydd i bobl o oedran gweithio sydd ar incwm isel yw'r Credyd Cynhwysol. Mae'n cael ei gyflwyno yn raddol fesul cam ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Golyga hyn mai dim ond rhai rhannau o'r wlad sy'n gallu cael y Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd, a bod eraill yn dal i aros iddo gael ei gyflwyno. I gael gwybod a yw'r Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch Canolfan Byd gwaith, neu fel arall



gallwch bori trwy'r rhestr o ardaloedd yn www.gov.uk.

Mae'r Credyd Cynhwysol yn disodli'r chwe budd-dal canlynol os ydych yn eu derbyn ar hyn o bryd: Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm, Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant a'r Credyd Treth Gwaith. Yn yr un modd, os ydych yn dechrau derbyn y Credyd Cynhwysol, ni chewch wneud cais am yr un o'r budd-daliadau a restrir uchod.

Mae'r Credyd Cynhwysol yn dibynnu ar brawf modd. Felly bydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich sefyllfa ariannol, megis faint yr ydych yn ei ennill ac unrhyw gynilion sydd gennych. Os nad ydych yn ennill, bydd yn cyfrifo faint y gallwch ei hawlio ar sail yr hyn y mae ei angen arnoch i fyw o ystyried eich adnoddau ariannol. Bydd eich hawliad hefyd yn dibynnu ar a ydych yn byw gyda phartner ac, os felly, a yw eich partner hefyd yn gymwys. Ceir nifer o amodau sy'n gwneud rhywun yn anghymwys i dderbyn y Credyd Cynhwysol. Enghraifft o hyn yw os na allwch chi weithio o gwbl oherwydd anaf i'ch ymennydd. I drafod eich cymhwysedd, gallwch ffonio llinell gymorth y Credyd Cynhwysol trwy ddefnyddio'r manylion sydd ar gael yn yr adran *Rhifau Defnyddiol*.

Mae'r Credyd Cynhwysol yn cynnig lwfans safonol, ar gyfradd a gaiff ei phennu gan nifer o ffactorau, megis faint o bobl sy'n hawlio fesul aelwyd. Mewn rhai sefyllfaoedd, gallech fod yn gymwys i dderbyn elfennau ategol y Credyd Cynhwysol, sef taliad ychwanegol ar ben eich lwfans safonol. Enghraifft o hyn yw os oes plant ar yr aelwyd neu os yw eich gallu i weithio yn gyfyng.

Gwneud Cais am Credyd Cynhwysol

Mae'n rhaid gwneud cais am Credyd Cynhwysol ar-lein. Os yw'n anodd ichi fynd ar y we neu ddefnyddio'r rhyngwyd, cewch gysylltu â'ch Canolfan Waith leol am gymorth wrth wneud cais ar-lein.

Ar ôl gwneud cais, cewch eich gwahodd i Asesiad Gallu i Weithio a chyfweliad wyneb yn wyneb, pan gewch wybod beth fydd angen i chi ei wneud er mwyn derbyn y Credyd Cynhwysol. Bydd hon yn drafodaeth ynghylch eich sefyllfa, cyfradd y Credyd Cynhwysol y gallech fod yn gymwys i'w derbyn, a'r hyn y disgwylir i chi ei wneud i fod yn gymwys. Yna bydd angen i chi lofnodi ymrwymiad hawliwr i ddangos eich bod yn deall y disgwyliadau sy'n ofynnol gennych. Os ydych, ar unrhyw adeg, yn methu â chyflawni'r disgwyliadau y cytunwyd arnynt, efallai y gwneir toriadau i'ch Credyd Cynhwysol. Gelwir hyn yn gosb.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r DWP am unrhyw newidiadau i'ch sefyllfa, er enghraifft os byddwch yn rhoi'r gorau i weithio, neu'n dechrau gweithio, neu os na allwch chi fodloni un o'r gofynion a nodwyd yn eich ymrwymiad hawliwr.

Nid effeithir ar y Credyd Cynhwysol os oes angen i chi fynd i'r ysbyty pan fyddwch yn ei gael.



Herio Penderfyniad ynglŷn â'r Credyd Cynhwysol

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad ynghylch eich cymhwysedd i dderbyn Credyd Cynhwysol, efallai y byddwch yn dymuno gwneud cais am ailystyriaeth orfodol. Mae manylion am sut i wneud hyn yn eich llythyr penderfyniad. Caiff rhywun eich helpu gyda'r broses hon, megis aelod o'r teulu neu eiriolwr. Dylid cyflwyno ailystyriaethau gorfodol o fewn mis i dderbyn y llythyr penderfyniad.

Os yw eich ailystyriaeth yn dal i nodi nad ydych yn gymwys i dderbyn Credyd Cynhwysol, cewch apelio yn erbyn y penderfyniad hwn mewn triwlynys annibynnol. Os ydych yn penderfynu apelio, mae gennych fis o ddyddiad llythyr yr ailystyriaeth orfodol gan DWP i gyflwyno apêl. Gwneir hyn trwy ffurflen SSCS1; mae'r ffurflen hon yn www.gov.uk neu gallwch ofyn am gopi gan eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol.

Credyd Cynhwysol – pwyntiau allweddol

- Mae'r Credyd Cynhwysol yn disodli nifer o fudd-daliadau mewn rhannau o Gymru, Lloegr a'r Alban.
- Mae'n cynnig lwfans safonol ac elfennau ychwanegol y byddwch yn gymwys i'w derbyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau.
- Bydd angen i chi gael Aseiad Gallu i Weithio a chyfweliad i drafod eich cymhwysedd yn rhan o'ch proses gwneud cais.

Taliad Annibyniaeth Personol

Budd-dal yw'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) sy'n disodli'r Lwfans Byw i'r Anabl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r DLA yn cael ei ddefnyddio o hyd yng Ngogledd Iwerddon ac mae hawlwy'r DLA mewn manau eraill yn dal i gael eu trosglwyddo i'r PIP. Os ydych yn hawlio DLA ar hyn o bryd, nid oes yn rhaid i chi wneud dim oni bai bod yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cysylltu â chi.

Mae'r PIP yn fudd-dal i bobl rhwng 16 a 64 oed sydd angen cymorth gyda gofal personol neu symudedd o ganlyniad i reswm sy'n ymwneud ag iechyd y disgwylir iddo barhau am dymor hir (12 mis neu fwy). I lawer o bobl, gall anaf i'r ymennydd achosi effeithiau hirdymor neu barhaol hyd yn oed. Felly mae'n bwysig gwneud hyn yn glir i unrhyw un sy'n cynnal aseiad PIP, oherwydd efallai nad yw'r effeithiau 'cudd' yn amlwg.

Nid yw'r PIP yn dibynnu ar brawf modd. Ni chaiff ei ystyried ychwaith yn incwm o ran budd-daliadau sydd yn dibynnu ar brawf modd. Yn hytrach, gall gynyddu swm y budd-daliadau y gellir eu talu sy'n dibynnu ar brawf modd.

Mae dwy 'elfen' i'r PIP: 1) yr elfen byw bob dydd 2) yr elfen symudedd. Cewch eich asesu ar y ddwy elfen hyn i weld faint o'r PIP yr ydych yn gymwys i'w derbyn yn dibynnu ar eich anghenion.



Yr elfen Byw Bob Dydd

Mae'r elfen hon yn asesu faint o allu sydd gennych i gyflawni gweithgareddau bob dydd fel coginio, glanhau neu ymolchi, yn annibynnol. Gall rhai pobl ag anaf i'r ymennydd ei chael yn anodd cyflawni'r gweithgareddau hyn, a gall eraill fethu â'u gwneud yn ddiogel mwyach.

Telir elfen byw bob dydd y PIP ar ddwy gyfradd: safonol ac uwch. Bydd eich sgôr yn y rhan hon o'r cam asesu yn pennu cyfradd yr elfen byw bob dydd.

Yr elfen Symudedd

Mae'r elfen hon yn asesu sut y gallwch chi deithio yn annibynnol y tu allan i'r tŷ. Gall anaf i'r ymennydd effeithio ar agweddau corfforol amrywiol ar symudedd, megis achosi pendro a phroblemau cydbwysu. Gall hefyd arwain at faterion gwybyddol amrywiol sy'n gwneud cynllunio a dilyn llwybr yn anodd neu'n anniogel.

Telir elfen symudedd y PIP ar ddwy gyfradd hefyd, sef safonol ac uwch. Mae bod ar y gyfradd uwch o'r elfen symudedd yn golygu y gallwch fanteisio ar gynllun o'r enw Motability, sy'n caniatáu i unigolion gyfnewid eu taliad ar gyfer yr elfen symudedd, am gar, cerbyd sy'n addas i gadair olwyn neu sgwter modur. Nid yw'n ofynnol mai chi yw gyrrwr y cerbyd; gellir enwi hyd at ddau unigolyn arall i fod yn yrwr i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Motability, ewch i wefan Motability yn www.motability.co.uk neu ffoniwch 0845 456 4566.

Gwneud cais am PIP

Gallwch wneud cais am PIP naill ai drwy ffonio llinell ceisiadau PIP ar 0800 917 2222, neu drwy ysgrifennu i ofyn am gael ffurflen *How your disability affects you* trwy'r post. I wneud cais am y ffurflen hon ysgrifennwch i:

Personal Independence Payment New Claims,
Post Handling Site B,
Wolverhampton,
WV99 1AH

Ar ôl llenwi'r ffurflen dylech ei hanfon i'r DWP o fewn mis i'w chael, neu gellid gwrthod eich cais fel arall. Os ydych yn ael anhawster llenwi'r ffurflen, gallech ofyn i rywun eich helpu i'w llenwi. Cofiwch y gallwch ffonio'r DWP ar y rhif uchod os ydych yn cael anhawster yn deall unrhyw gwestiynau neu os hoffech eglurhad ar y math o wybodaeth i'w chynnwys ar y ffurflen. Gallwch hefyd ystyried cysylltu â'ch grŵp neu'ch cangen Headway lleol a llinell gymorth Headway, oherwydd efallai y gallant hwy gynnig cymorth neu eich cyfeirio at wasanaethau lleol defnyddio a allai eich cynorthwyo.



I gael cymorth i wneud cais am PIP gallwch gysylltu â'ch Canolfan Waith neu Swyddfa Cyngor ar Bopeth leol, neu ffonio Llinell Ymholiadau PIP ar 0345 850 3322.

Mae llawlyfr defnyddiol ar PIP hefyd ar gael o www.gov.uk/government/publications.

Asesiad PIP

Yn dilyn eich cais, fel arfer bydd gofyn i chi gael asesiad. Yn yr asesiad hwn bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn asesu eich sgiliau byw bob dydd a sgiliau symudedd mewn cyfarfod wyneb yn wyneb. Gwneir hyn fel arfer mewn canolfan allanol, ond os ydych yn cael problemau teithio gallwch wneud cais i gynnal y cyfarfod yn eich cartref eich hun. Gallwch hefyd gael perthynas neu ffrind yn bresennol gyda chi yn yr asesiad. Mewn rhai achosion gall hyn fod yn ddefnyddiol, oherwydd gallan nhw nodi a rhoi sylw i broblemau nad ydych yn ymwybodol ohonynt neu'n anghofio sôn amdanynt oherwydd problemau cofio.

Mae'r asesiad yn defnyddio system sgorio i benderfynu a ydych yn gymwys i dderbyn un neu ddwy elfen y PIP a pha gyfradd yr ydych yn gymwys i'w derbyn.

Gellir ôl-ddyddio'r PIP i ddyddiad y cais cyntaf. Caiff ei dalu bob pedair wythnos yn syth i'ch cyfrif banc. Fel arfer, pennir y cyfnod y byddwch yn derbyn PIP, yn dibynnu ar a yw'ch anghenion yn debygol o newid gydag amser.

Gallwch wario'r PIP yn ôl eich dymuniad. Os oes gennych ofalwr, gall y ffaith eich bod chi'n derbyn PIP wneud y gofalwr yn gymwys i dderbyn Lwfans Gofalwyr.

Herio penderfyniad ynglŷn â PIP

Os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad ynghylch a ydych yn gymwys i dderbyn PIP, efallai y byddwch yn dymuno gwneud cais am ailystyriaeth orfodol. Bydd manylion am sut i wneud hyn wedi'u cynnwys yn eich llythyr penderfyniad. Caiff rhywun eich helpu gyda'r broses hon, megis aelod o'r teulu neu eiriolwr. Dylid cyflwyno ailystyriaethau gorfodol o fewn mis i dderbyn y llythyr penderfyniad.

Os yw eich ailystyriaeth yn dal i nodi nad ydych yn gymwys i dderbyn PIP cewch apelio yn erbyn y penderfyniad hwn mewn triwlynlys annibynnol. Os ydych yn penderfynu apelio, mae gennych fis o ddyddiad llythyr yr ailystyriaeth orfodol gan DWP i gyflwyno apêl. Gwneir hyn trwy ffurflen SSCS1; mae'r ffurflen hon yn www.gov.uk neu gallwch ofyn am gopi gan eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol.

Ni thelir PIP (neu'r DLA) os ydych yn yr ysbyty am fwy na 28 diwrnod.

Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) – pwyntiau allweddol

- Mae'r PIP yn disodli'r Lwfans Byw i'r Anabl mewn rhannau o'r DU
- Mae dwy elfen i'r PIP: yr elfen byw bob dydd a'r elfen symudedd. Telir y ddwy



elfen ar ddwy gyfradd: safonol ac uwch

- Bydd angen i chi gael asesiad yn rhan o'ch proses gwneud cais.

Budd-daliadau eraill

Mae nifer o fudd-daliadau eraill y gallech fod yn gymwys i'w derbyn, yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Isod ceir rhywfaint o wybodaeth am y budd-daliadau Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwyr a'r Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol.

Lwfans Gweini

Os ydych yn 65 oed neu'n hŷn ac mae gennych anghenion gofal oherwydd anaf i'ch ymennydd, gallwch fod yn gymwys i dderbyn Lwfans Gweini. Nid yw hwn yn dibynnu ar brawf modd. Felly ni roddir ystyriaeth i'ch incwm na'ch cynilion ac ni fyddant yn cael eu defnyddio i bennu a ydych yn gymwys ai peidio.

Mae'n rhaid eich bod wedi bod ag anghenion gofal am o leiaf chwe mis i fod yn gymwys ac mae'n rhaid eich bod wedi byw yn y DU am y cyfnod hwn.

Mae dwy gyfradd i'r Lwfans Gweini, cyfradd is a chyfradd uwch, yn dibynnu ar faint o ofal sydd ei angen arnoch. Byddwch fel arfer yn cael eich talu bob pedair wythnos.

Ni thelir eich Lwfans Gweini os ydych yn cael eich derbyn i'r ysbyty, a hynny am fwy na 28 diwrnod.

Gallwch wario'r Lwfans Gweini yn ôl eich dymuniad. Nid oes yn rhaid ei wario ar gyflogi gofalwr. Os oes gofalwr gennych eisoes, gall y ffaith eich bod yn derbyn Lwfans Gweini ei wneud ef yn gymwys i dderbyn Lwfans Gofalwyr.

Gallwch wneud cais am Lwfans Gweini drwy ffonio llinell gymorth y Lwfans Gweini ar 0345 605 6055.

Fel arall, gallwch lawr lwytho ffurflen gais o www.gov.uk (os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban), neu www.nidirect.gov.uk os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon.

Gellir ôl-ddyddio'r Lwfans Gweini i ddyddiad y cais cyntaf.

Lwfans Gofalwyr

Os oes gennych ofalwr oherwydd bod gennych anghenion gofal sylweddol, gallai ef/hi fod yn gymwys i dderbyn Lwfans Gofalwyr. Nid oes raid i'ch gofalwr fod yn byw gyda chi, nac yn perthyn i chi, i fod yn gymwys i'w dderbyn.

Ymhlith y meini prawf cymhwysedd ar gyfer Lwfans Gofalwyr, mae'n rhaid i'r gofalwr fod



yn 16 oed neu'n hŷn, mae'n rhaid i'r gofalwr dreulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu amdano, ac ni chaiff fod mewn addysg amser llawn. Hefyd, ni chaiff ennill mwy na £110 yr wythnos. Mae'r rheolau ychydig yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon, ond maent ar gael yn www.nidirect.gov.uk.

Gallai derbyn Lwfans Gofalwyr effeithio ar fudd-daliadau eraill y mae'r aelwyd yn eu derbyn sy'n dibynnu ar brawf modd. Dylech ofyn am gyngor cyn gwneud cais am Lwfans Gofalwyr, er mwyn cael gwybod sut y gall hyn effeithio ar eich incwm. Gall gofalwr wneud cais am Lwfans Gofalwyr drwy lenwi ffurflen gais sydd ar gael yn www.gov.uk.

Gall gofalwyr barhau i dderbyn Lwfans Gofalwyr os byddan nhw, neu chi, yn cael seibiant. Golyga hyn y byddwch yn parhau i gael eich talu am hyd at bedair wythnos os bydd y naill neu'r llall ohonoch yn mynd ar wyliau, neu am hyd at 12 wythnos os yw'r naill neu'r llall ohonoch yn cael eich derbyn i'r ysbyty neu ofal seibiant.

Ni thelir Lwfans Gofalwyr i'r gofalwr os ydych chi'n cael eich derbyn i'r ysbyty ac ni thelir eich PIP.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB)

Mae hwn yn fudd-dal hwn ar gyfer unigolion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd yn sgil damwain yn y gwaith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, megis difrifoldeb yr anaf. Caiff ei dalu'n wythnosol. Nid yw ar gael os cawsoch eich anaf drwy wneud gwaith hunangyflogedig.

Gallwch wneud cais am y budd-dal trwy lenwi'r ffurflen IIDB, sydd ar gael yn www.gov.uk.

Gall derbyn IIDB effeithio'n negyddol ar fudd-daliadau eraill y gallech fod yn eu derbyn, megis Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm, Credyd Cynhwysol a Budd-dal Tai. I gael rhagor o wybodaeth am hawliad a gwneud cais, neu i gael cymorth i wneud cais, cysylltwch â'r Ganolfan IIDB ar 0345 758 5433.

Terfynau Budd-daliadau

Mae yna derfyn ar faint y caiff aelwyd ei dderbyn mewn budd-daliadau. Gelwir hyn y 'terfyn budd-daliadau'. Mae lefel y terfyn yn dibynnu ar nifer y bobl sydd ar yr aelwyd. Ar adeg ysgrifennu hyn (mis Mai 2016), £500 yr wythnos yw'r terfyn budd-daliadau i gyplau â phlant neu rieni sengl sy'n byw gyda phlant, a £350 yr wythnos i oedolion sengl nad ydynt yn byw gyda phlant.

Mae rhai hawlwr budd-daliadau yn cael eu heithrio rhag y terfyn, megis hawlwr y Taliad



Annibyniaeth Personol (neu'r Lwfans Byw i'r Anabl).

Mae cyfrifwr terfyn budd-daliadau ar wefan y llywodraeth (www.gov.uk). Gall y cyfrifwr hwn eich helpu i gyfrifo faint o'ch budd-daliadau y gellid rhoi terfyn arnynt, yn dibynnu ar faint yr ydych yn ei dderbyn.

Penderfyniadau Apeliadau

Mae gwybodaeth am apelio yn erbyn penderfyniad ar gael yn y llyfryn hwn. Fodd bynnag, dyma rai pwyntiau cyffredinol i'w hystyried:

- Os ydych yn apelio er mwyn derbyn cyfradd uwch o fudd-dal na'r hyn y penderfynwyd arno, mae'n bwysig eich bod yn gofyn am gyngor ariannol cyn cyflwyno apêl. Y rheswm am hyn yw, er y bydd eich apêl o bosib yn llwyddiannus, y gallai hefyd arwain at ailystyried eich hawliad a'ch gadael â llai na'r hyn oedd gennych cyn yr apêl.
- Ar gyfer eich cofnodion eich hun, cadwch gopïau wedi'u dyddio o'r llythyrau yr ydych wedi'u hanfon.
- Cysylltwch â'ch grŵp neu gangen Headway lleol, neu linell gymorth Headway, oherwydd gallan nhw roi cymorth i chi o bosib gyda'r broses apelio neu eich cyfeirio at ffynonellau cymorth lleol eraill.
- Byddwch yn ymwybodol o unrhyw derfynau amser a all fod yn gysylltiedig â'r broses apelio. Os ydych yn methu terfyn amser, efallai y gallwch gyflwyno apêl o hyd os oes gennych reswm da dros beidio â bodloni'r terfyn amser gwreiddiol.

Cael gwybod pa fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w derbyn

Gobeithio bod yr wybodaeth yn y llyfryn hwn wedi eich helpu chi fel canllaw cyffredinol i'r budd-daliadau, y mathau sydd ar gael a'r meini prawf cymhwysedd sy'n gysylltiedig â'r budd-daliadau amrywiol. Cofiwch, mae hawliadau budd-daliadau yn aml yn dibynnu ar amgylchiadau personol, felly mae'n bwysig gofyn am gyngor cyn i chi wneud cais. Cewch ragor o wybodaeth a chyngor ar y budd-daliadau drwy gysylltu â'r gwasanaethau canlynol:

- Eich Canolfan Waith leol
Gall y Ganolfan Waith leol eich helpu i asesu hawliadau a cheisiadau budd-daliadau
- Gwefan llywodraeth y DU
Yn cynnig yr wybodaeth ddiweddaraf am bob math o fudd-daliadau. Mae ffurflenni cais swyddogol a manylion am fudd-daliadau hefyd ar gael ar y wefan.



- **Turn2Us**
Yn cynnig gwybodaeth am wahanol fathau o fudd-daliadau ac yn cynnwys cyfrifwr budd-daliadau i'ch helpu i gyfrifo'r budd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w derbyn ar sail eich amgylchiadau personol.
- **Entitledto**
Yn cynnig gwybodaeth am wahanol fudd-daliadau ac yn cynnwys cyfrifwr budd-daliadau i'ch helpu i gyfrifo'r budd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w derbyn ar sail eich amgylchiadau personol.

Rhifau Defnyddiol

Llinell gymorth Lwfans Gweini: 0345 605 6055 (rhif ffôn)

Canolfan Ymholiadau CThEM: 0300 200 3500 (rhif ffôn)

Canolfan Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol: 0345 758 5433 (rhif ffôn)

Canolfan Byd Gwaith / Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ceisiadau newydd)

Cymru, Lloegr a'r Alban: 0800 055 6688 (rhif ffôn); 0800 023 4888 (ffôn testun); 0800 012 1888 (Cymraeg)

Gogledd Iwerddon: 0800 085 6318 (rhif ffôn); 0800 328 3419 (ffôn testun)

Taliad Annibyniaeth Personol: 0800 917 2222 (rhif ffôn)

Scope Disability Information Advice Line (DIAL): 0808 800 3333 (rhif ffôn)

Llinell gymorth Credyd Cynhwysol: 0345 600 0723 (rhif ffôn); 0345 600 0743 (ffôn testun)